**Mike**

Mae Mike yn 17 oed. Mae'n boblogaidd gyda'i ffrindiau, mae ganddo dalent gerddorol, yn uchelgeisiol ac eisiau teithio'r byd. Mae'n gyfforddus gyda'i hun ac yn hyderus o ran ei berthynas ag eraill.

Mae'n parchu menywod ac yn gwerthfawrogi bod perthynas yn seiliedig ar gytundeb ac ymddiriedaeth o'r ddwy ochr. Mae'n caru Rosie ac maent wedi bod yn mynd allan gyda'i gilydd am bron i 18 mis. Mae ganddynt berthynas dda iawn a byddant bob amser yn trafod pethau.



Adnodd 6b

**Ben**

Mae Ben yn 17 oed. Mae ganddo natur ddiog ac nid oes ganddo lawer o uchelgais. Ei ffrind gorau yw Mike. Mae'n edmygu Mike, rhywun y mae'n ei ystyried yn berson talentog a phoblogaidd.

Mae Ben yn tueddu i gredu popeth a gall gael ei ddylanwadu'n hawdd gan eraill. Mae'n credu bod pob person ifanc yn cael rhyw ac mai ef yw'r unig berson sydd ddim â pherthynas o'r fath.

Mae'n dueddol o reoli menywod ac nid oes ganddo'r gallu i ddatblygu perthynas sydd â pharch o'r ddwy ochr. Pan na chaiff ei ffordd ei hun neu na chaiff reoli mae'n tueddi i golli ei dymer.



**Chloe**

Mae Chloe yn 17 oed. Mae'n byw gyda'i Mam, sy'n unig riant. Bu farw ei thad yn ddiweddar ac maent wedi symud i ardal newydd er mwyn gwneud dechrau newydd. Nid oes gan Chloe berthynas agos iawn gyda'i mam ac mae'n teimlo cywilydd ac yn methu trafod materion rhyw gyda hi.

Mae Chloe yn swil a thawedog, a bydd yn rhoi'r argraff ei bod yn nerfus ac ar binnau fel aelod newydd o'r ysgol. Mae eisiau i bawb ei hoffi ac am ffitio i mewn yn y grŵp. Mae'n edmygu Rosie yn arbennig gan ei bod fel petai'n bopeth y mae Chloe eisiau bod. Bydd ei ffrindiau yn trafod rhyw yn aml, ond mae Chloe yn amharod i siarad am y pwnc hyd yn oed gyda hwy.

Mae Chloe yn caru Ben. Mae hi eisiau bod gydag ef am byth. Fodd bynnag, nid yw'n barod i gael rhyw eto. Mae'n teimlo dan bwysau gan fod Ben yn siarad am weithgaredd rhywiol yn aml.



**Rosie**

Mae Rosie yn 17 oed. Mae'n byw gyda'i mam a'i thad sydd i ffwrdd ar wyliau. Maent wedi byw yn yr ardal ers geni Rosie. Maent yn deulu cefnog a bydd Rosie yn cael popeth y bydd rhywun yn ei arddegau eisiau. Mae'n ferch hyderus ac yn mwynhau cymdeithasu gyda'i ffrindiau. Mae'n aelod poblogaidd o'r grŵp blwyddyn yn ei hysgol. Mae Chloe a Bethan yn ei hoffi ac yn ei hedmygu. Rosie yw'r prif lais mewn band roc gyda Ben a Mike. Mae'n caru Mike ac maent wedi bod yn mynd allan am bron i 18 mis. Mae eu perthynas wedi ei seilio ar barch ac mae wedi tyfu drwy gytundeb o'r ddwy ochr. Maent yn ymddiried yn ei gilydd ac yn gweld ei gilydd yn gyfartal yn y berthynas.

